# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 9fed o Fawrth am 1830yh yn Festri capel Bethlehem, Talybont**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Lowri Evans

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries.**

**2. Trafodaeth gyda Ian Morgan, Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd**

Trafodwyd y materion canlynol;

**Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Ian Morgan am gysylltu gyda Mr John Elis Jones, Ffarm Penrhyn Isaf i geisio cael cytundeb i ddefnyddio rhan o'r tîr ffarm i gydymffurfio gyda rhan 100 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (sydd yn rhoi'r pŵer i awdurdod priffyrdd ollwng dŵr wyneb o ddraeniau priffyrdd i unrhyw ddyfroedd mewndirol, boed yn naturiol neu'n artiffisial, neu i unrhyw ddyfroedd llanw.)
**Arwyddion Maes y Groes –** Cafwyd cadarnhad fod arwyddion Maes y Groes ar rhestr archeb y Cyngor. Nid yw'r rhestr wedi ei gyflwyno i'r cyflenwyr hyd yma.
**Pant Bowls –** Cyngor Gwynedd ac Y Cyng Kevin Williams wedi glanhau y cilfach i wella y llif. Cytunwyd i dynnu oddi ar y cofnodion.
**Dwr yn llifo Chwarel y Bryn –** Ian Morgan am drefnu i Eilir Morgan gysylltu gyda Y Cyng. Kevin Williams i geisio trefnu ymweliad ar y cyd i'r safle.
**Gwteri Tan Lon, a Ffoes Ty'n Hendre –** Y Clerc i gysylltu gyda Y Cyng. Alun Thomas am fanylion mwy penodol. Manylion i'w hanfon ymlen i Ian Morgan.

Hefyd, trafodwyd Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi yn Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre a Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed.

**3. Trafodaeth gyda Donna Watts Partneriaeth Ogwen**

Cafwyd eglurhad a dadansoddiad o'r dyfynbris Gwasanaeth Clercio i Is-bwyllgor Mynydd.
Penderfynwyd awdurdodi y taliad canlynol;

7 diwrnod gwaith y flwyddyn ar gyfer gwasanaeth ysgrifenyddol @ £205 y dydd = £1,435.00 & TAW

**4. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Sîr Dafydd Meurig
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

**5. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 13fed o Chwefror 2022, yn ddarostyngedig i gofnodi Share Prosperity fund i rhestr o grantiau ar gael yn rhan 9.3.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion**

**6.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach** – Gweler pwynt 2.
**6.2 Arwyddion Maes y Groes –** Gweler pwynt 2.
**6.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes** Y Cyng. Dafydd Meurig yn rhoi cais i osod cyfarpar monitro cyfymder yn y safle**.** Disgwyl ymateb.
**6.4 Pant Bowls –** Gweler pwynt 2.
**6.5 Bryn Derwas –** Gosod bin halen Bryn Derwas ar rhestr asesiad Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**6.6 Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd**. **–** Derbynwyd ymateb gan Adra yn egluro'r bwriad o gyflwyno polisi gosod lleol ar y datblygiad, gyda'r blaenoriaethau. Hefyd, y dull o gyfrifo nifer y disgyblion ychwanegol a fydd yn deillio o'r datblygiad Gweler gohebiaeth
Derbynwyd ymateb i ebost Y Cyng Dafydd Meurig, gan Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Gwynedd. Gweler gohebiaeth.
**6.7 Cyfraddau treth Llanllechid** –Mae'r ymholiad am effaith trosglwyddo eiddo rhwng Cynghorau Cymuned wedi ei flaen yrru am ymateb gan uwch swyddogion sydd yn ymwneud a'r gyllideb (precept).
**6.8 Safle bws Talybont –** Beca Roberts wedi gadael Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. Dim diweddariad ar ei olynydd.
**6.9 Llwyn Bedw -** Derbynwyd gohebiaeth gan drigolion Llwyn Bedw yn codi pryderon am y datblygiadau. Penderfynwyd yng ngyfarfod Mis Medi i ysgrifennu llythyr i ddiolch iddynt am y gwybodaeth ac am gadw'r cyngor yn wybodus, unwaith mae'r cyfarfod

wedi cael ei gynnal. Dim diweddariad. Penderfynwyd tynnu oddi ar y cofnodion nes cael diweddariad.
**6.10 Diffyg cyfleusterau i helwyr Cocos ar draeth Lafan –** Ffurflen ar-lein wedi'i chyflwyno gan Y Clerc i Awdurdod Iechyd a Diogelwch. Dim diweddariad.

**6.11 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn –** Gweler pwynt 2.

**6.12 Tyllau yn y ffordd ger Bont rheilffordd, Talybont**. – Gwaith wedi ei chwblhau. Mi fydd angen ail asesu y ffordd mewn amser. Cytunwyd i dynnu oddi ar y cofnodion

**6.13 Gwteri Tan Lon, a Ffoes Ty'n Hendre**. Gweler pwynt 2.

**6.14 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Gweler pwynt 2.

## 7. Adroddiad Cyngor Sir

Derbynwyd y diweddariad canlynol gan Y Cynghorydd Dafydd Meurig.

1. Mesur cyflymder Maes y Groes - wedi gofyn i'r adran Trafnidiaeth i fesur. (6.3)
2. Materion Cae Rhosydd / Ysgol Llanllechid - wedi anfon ymatebion ymlaen. (6.6)
3. Materion ffyrdd etc - swyddogion o'r adran Briffyrdd yn ymuno efo chi heno.

## 8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol;

| | |
|---|---|
| Aelodaeth Un Llais Cymru | £143 |
| Macmillan | £100 |
| Partneriaeth Ogwen | £1,435.00 & TAW |

## 9. Y Mynydd

Adroddwyd fod gwaith wedi cychwyn ar drac Moel Wnion.

Adroddiad hefyd fod Wâl Llyn Goch am gael ei drwsio yn yr haf.

Y Cyng. Wyn Bowen Harries am gysylltu gyda Siwan Llynor am waith Celf am yr ardal.

Mae gwaith wedi gorffen ar giat newydd Waen Bryn, a mae gwaith ar fîn cychwyn ar giât Rachub.

## 10. Cae Chwarae Talybont

**10.1** Y Cyng. Lowri Evans am fynychu Parciau, Caernarfon chwilio am brisiau 'container' i gadw offer.

**10.2** Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.
**10.3** Cyflwynwyd cynlluniau lle parcio i 18-20 car gan Y Cyng. Evan Jones. Penderfynwyd trefnu cyfarfod yn y Cae Chwarae cyn cyfarfod Mis Ebrill i drafod y datblygiad. Y Clerc i drefnu.
**10.4** Y Cyng, Evan Jones ac Y Cyng, Wyn Bowen Harries yn cyfarfod y contractwr Cemlyn Williams yn y Cae Peldroed i drafod y cynlluniau, dydd Gwener 10 fed o Fawrth.
**10.5** Adroddwyd fod Y Cyng. Evan Jones wedi gwneud cais am Fainc Cyfeillgarwch i'r Cae Chwarae.

**11. Lwfans Blynyddol**

Dosbarthwyd ffurflenni 'Optio allan' a ffurflenni derbyn lwfans blynyddol. Ffurflenni iw gwblhau cyn 31fed o Fawrth.

**12. Gohebiaeth**

Trafodwyd y canlynol
**12.1** Diolch gan Elfed Jackson
**12.2** Ymateb ADRA i ebost Y Cyng. Dafydd Meurig ynghylch Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd (Gweler 6.6)
**12.3** Ymateb Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd i ebost Y Cyng. Dafydd Meurig ynghylch Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd (Gweler 6.6)

**13. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd fod Y Cyng. Evan Jones wedi rhoi cais i mewn am Fainc Cyfeillgarwch i Gae Chwarare Talybont.

**14. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C22/1149/21/LL**
Bronydd isaf, Llanllechid, Bangor
Codi dwy sied amaethyddol
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda amodau.

**C20/0504/21/LL**
Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid
Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/LB61D**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/LB61C**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**C22/1172/21/RA**
Tir gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda
Cais i ryddhau amodau 13 (manylion arwyddion) a 29 (adroddiad archaeoleg) o ganiatad cynllunio C19/0950/21/LL.
**Penderfyniad** Ar y gweill**.**

**C23/0038/21/HT**
Grass Verge, Nr Tal Y Bont, Bangor, LL57 3YL
Cais i osod mast telathrebu 17.5m, antenâu, cypyrddau offer ar y ddaear a datblygiadau cysylltiedig
**Penderfyniad** Ar y gweill.
Dim Gwrthwynebiad

## Ceisiadau Cynllunio

Dim.

## 15. Materion Brys/Eraill

Dim.

## 16. Adroddiad Llais Ogwan

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ________________________________

Cynhalwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ar y 9fed o Fawrth yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.
Daeth Ian Morgan o Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod. Cafwyd sgwrs buddiol a difyr iawn am faterion priffyrdd o fewn plwyf Llanllechid.

Cytunwyd i wasanaeth clercio gan Partneriaeth Ogwen i'r Is – Bwyllgor Mynydd.

Ni dderbynwyd ceisiadau cynllunio newydd.

Mae datblygiadau Cae Peldroed Talybont yn parhau. Trefnwyd cyfarfod gyda contractwr i drafod y cynlluniau.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________